

CYNGOR CYMUNED MAWDDWY

Cofnodion o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd Nos Fercher y 13eg o Fawrth 2019 am 7.30 o'r gloch yn Neuadd Dinas Mawddwy.

Presennol; Cynghorwyr Elwyn Jones, Iwan Foulkes , Arfon Hughes, Tegwyn Jones, Idris Jones, Berwyn Harding, Hedd Pugh, Geraint Morgans, John P Jones, John P Roberts (Cyngor Gwynedd) a Huw T Jones (Clerc)

Ymddiheuriadau;. Cyng Berwyn Hughes, Catrin Jones.

1. Cofnodion y cyfarfod diwethaf:

Aethpwyd ymlaen i gadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 23ain o Ionawr fel rhai cywir. Mynegodd y Cadeirydd ei farn na ddylai y Cyngor Cymuned fod wedi dod i'r penderfyniad wnaethpwyd yn 6 d) yng nghyswllt Cynllun Uwchraddio Llwybrau cyhoeddus cylch Dinas oherwydd fod cofnodion cyfarfod 5ed o Ragfyr wedi dweud y dylid cael barn gyfreithiol gymwys ar unrhyw ymwneud posib gan y Cyngor Cymuned, ac nid oedd hyn wedi ei wneud. Trafodwyd y mater, a mynegodd rhai y dylai hyn fod wedi ei godi yn y cyfarfod diwethaf ar y 23ain o Ionawr cyn y drafodaeth yr adeg honno.

Cafwyd mynegiant diddordeb gan Cynghorwyr Elwyn Jones, Arfon Hughes, Tegwyn Jones, Hedd Pugh, John P Jones, a John P Roberts (Cyngor Gwynedd) a gadawsant yr ystafell.

Daethpwyd i'r penderfyniad fod rhaid i'r hyn a basiwyd yng nghyfarfod 23ain o Ionawr sefyll, ac yn ogystal a hyn, roedd y mwyafrif yn mynegi nad oeddent o blaid y cynllun Uwchraddio llwybrau.

Cadarnhawyd felly fod cofnodion cyfarfod 23ain o Ionawr yn gywir, ac fe'i arwyddwyd gan y Cadeirydd yn y ffordd arferol.

2. Materion yn codi .

- a) **Gwahoddiad i Sarah Bletcher, Warden Eglwys Mallwyd** – adroddwyd ymateb Parch Miriam Beecroft yn dweud fod Sarah Bletcher wedi ymddiswyddo. Hefyd dywedodd Parch Miriam Beecroft ac na fedrai hi ddod atom i gyfarfod 13eg o Fawrth – ond roedd hi'n awyddus i gael rhywun arall i ddod atom. Ar ol ymgynghori efo'r Cadeirydd, roedd y Clerc wedi gadael y mater am y tro. Wedi trafodaeth, penderfynwyd gwahodd Miriam Beecroft atom y tro nesaf, ond roedd angen amlinellu iddi yn glir ymlaenllaw beth sydd angen ei drafod.
- b) **Presept y Cyngor a'r diweddariad ar y gwariant gan y Cyngor** – derbyniwyd adroddiad gan y Clerc am y sefyllfa, a pharhau eto ar y drafodaeth yn dilyn rhestru y gwariant a'r incwm ar gyfer y flwyddyn i ddod. Trafodwyd eitemau o wariant sydd ar y gweill ar gyfer 2019-20, a bod rhaid paratoi ar gyfer y gwariant ar y biniau halen, a posibilrwydd o wariant ar dorri coed ar Doly Bont. Hefyd gallai'r Ysgol Feithrin fod angen mwy o gymorth. Gwelwyd hefyd fod yna gryn wariant gennym fel Cyngor cyn diwedd y flwyddyn ariannol, a nifer o geisiadau i'w trafod cyn diwedd y cyfarfod.
- c) **Trafodaeth gyda'r Cyng Dyfrig Siencyn ynglyn a'r angen i dorri coed ger comin Dolybont**, - mynegwyd siom nad oedd dim ymateb pellach wedi dod i law, sef ei fod wedi dweud y byddent hwy fel Cyngor Gwynedd yn eu torri, ar yr amod y byddem ni fel Cyngor Cymuned yn eu clirio. Roedd angen dilyn hyn i fyny eto. Os nad oedd ymateb boddhaol, byddai rhaid ystyried symud ymlaen

ein hunain fel Cyngor Cymuned, ac enwebwyd Dafydd Davies Pengwern, Cwmni Andersons a Nedw Llecheiddior Dyffryn Ardudwy fel enwau posib i gysylltu a hwy. Hefyd byddai angen trwydded i'w cwmpo gan y Parc Cendlaethol.

- d) **Mynwent Dinas Mawddwy a'r angen i ail-edrych ar y penderfyniad o ble i gychwyn claddu** – cadarnhawyd fod cyfarfod wedi ei gynnal yn y fynwent am 5.15 yh y pnavn hwnnw, a bod peg wedi ei osod gan y Clerc yn y safle lle penderfynwyd cychwyn claddu o dan y llwybr i'r dyfodol.
- e) **Roedd tyllau yn parhau ar Lawnt y Plas**, ac angen atgoffa Cartrefi Cymunedol Gwynedd eto o'r cyflwr difrifol. Adroddodd y Clerc y gohebiaeth ddiweddaraf.
- f) **Coed ac iddew yn tyfu ym mynwent Mallwyd**, gan gynnwys oddiamgylch rhai o'r cerrig beddi – adroddodd Cyng Tegwyn Jones ei fod wedi cyfarfod Tegid Humphreys ar y safle, ac adroddodd y Clerc fod amcangyfrif i law am £250. Cytunwyd i hyn, ond fe nodwyd fod rhaid cael sicrwydd a oes yswiriant gan Tegid ar gyfer y gwaith yma, neu a oes raid i'r Cyngor Cymuned sicrhau hyn.
- g) **Ffens derfyn rhwng mynwent Llanymawddwy a thir ochr ucha'r fynwent**, cadarnhawyd fod hyn yn gyfrifoldeb y Cyngor Cymuned, a phenderfynwyd gofyn i Dafydd Brynion am amcangyfrif, ac awygrymwyd y dylai Cyng Elwyn Jones a Hedd Pugh ei gyfarfod ar y safle.
- h) **Dwr yn dod i lawr o'r goedwig ac heibio tai Godre'r Coed** – roedd cadarnhad fod Grace Sanderson o Cyfoeth Naturiol Cymru yn delio efo hyn – diolchwyd i'r Cyng Arfon Hughes am ei gymorth gyda'r mater.
- i) Nid oedd ymateb i'r pwyntiau a godwyd gan **Adran Briffyrdd Cyngor Gwynedd** am faterion y tro diwethaf, ond darllenwyd e-bost Merfyn Wyn Morris o **Adran Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru** ynglyn a problem dwr ar yr A458 ger Dugoed Mawr ac archwilio'r A470 rhwng y Buckley Pines a Celyn Brithion.
- j) **Meddygfa Glantwymyn** – adroddwyd am y datblygiadau ers y Cyngor diwethaf, a'r gohebiaeth i'r Cynghorwyr drwy e-bost. Roedd y Clerc hefyd wedi ysgrifennu at Liz Saville Roberts AS a Dafydd Elis Thomas AC, ac roedd Liz S Roberts wedi ymateb yn dweud y byddai yn gwrthwynebu cau'r feddygfa, a nodwyd ymateb Dafydd Elis Thomas yn rhoi eglurhad am y broses. Roedd yr ymgynghoriad yn rhedeg o'r 11 Chwefror hyd at yr 28ain o Fawrth. Roedd sesiwn galw mewn wedi ei gynnal yn y Llew Coch Dinas Mawddwy ar Nos Fercher y 6ed o Fawrth, ac roedd nifer o Gynghorwyr a'r Clerc wedi galw heibio yno a phawb yn siarad yn gryf. Roedd yn bwysig fod pawb yn ymateb i'r ymgynghoriad, a byddai'r Clerc yn ymateb yn uniongyrchol ar e-bost i'r ymgynghoriad.
- k) Yn dilyn e-bost i'r Clerc gan y Cadeirydd ar ran **Cyng J P Roberts (Cyngor Gwynedd)** - a oedd wedi gofyn am gyfle i siarad - derbyniwyd adroddiad J P Roberts am gefndir codi praesept Cyngor Gwynedd o 5.8%, ac aeth i fanylder am wariant y Cyngor, lle maent yn blaenoriaethu, a'r pwysau ariannol sydd arnynt. Atebodd gwestiynau fel bo'r angen gan aelodau y Cyngor Cymuned, ac ymysg nifer o faterion soniwyd am y loriau casglu sbwriel ac a oedd yna le i arbed arian. Soniwyd hefyd am gyswllt ariannol Cyngor Gwynedd gyda Chynghorau Cymuned, a gwelwyd fod angen eglurhad ar faint sy'n cael ei gyfrannu i'r Cyngor Cymuned.

3. Materion Cynllunio

Nid oedd unrhyw faterion cynllunio i'w trafod.

4. Materion Cyllid.

Nodwyd fod llythyrau caredig o ddiolch gan Neuadd Dinas Mawddwy ac Aberangell, ac hefyd Eisteddfod y Groglith yn dilyn y cyfraniadau a wnaethpwyd y tro diwethaf.

Cytunwyd i ymuno ag Un Llais Cymru unwaith yn rhagor ar gost o £117.
Cytunwyd i dalu anfoneb am arwyddion 'Dim cwn heblaw cwn arwain' 150mm x 200mm i'r Cyng Arfon Hughes, sef cost o £23.39.

Roedd nifer o geisiadau am arian i law a chytunwyd fel a ganlyn;

Ambiwlans Awyr Cymru - £300.

Cylch Meithrin Dolybont - £800.(Cafwyd datganiad diddordeb gan Cyng. Iwan Ll Foulkes, Geraint Morgans a Tegwyn Jones) Nodwyd hefyd y dylid crybwyll hyn wrth drafod cyllideb 2019-20)

Gofal Canser Tenovus - £50.

Mudiad Clybiau Ffermwyr Ieuaic Meirionnydd - £800.(Cafwyd datganiad diddordeb gan Cyng Hedd Pugh a'r Clerc)

Ymddiriedolaeth Gofalwyr Gogledd Cymru - £50.

Trafodwyd **gostau a chydabyddiaeth y Clerc** a gadawodd y Clerc yr ystafell pan drafodwyd hyn. Cytunwyd i dalu cyflog (net) o £1500 a £1250 o gostau ar gyfer 2019-20. Gadawyd y mater yn nwylo'r Clerc i drafod ymhellach gyda'r Uned Archwilio yn Cyngor Gwynedd I gael cadarnhad o sut I rannu y swm o gostau / cydnabyddiaeth.

5. Gohebiaeth.

- a) Darllenwyd yn llawn e- bost gan Cyng. Catrin Jones a oedd yn gofyn i'r Clerc ei ddarllen yn y Cyngor Cymuned. Roedd hi yn ymddiheuro na allai fynychu. Penderfynwyd gadael y mater ar y bwrdd hyd nes y byddai hi yn medru bod yn bresennol, er mwyn rhoi cyfle iddi ehangu ar y pwyntiau yr oedd hi'n godi fel bo'r angen.
- b) Cyfeiriwyd yn llawn at e-bost gan Gyngor Gwynedd ynglyn a Cynllun Partneriaethu Toiledau Cyhoeddus, a chais i'r Cyngor Cymuned gytunebu am ddwy flynedd (2019 – 10 a 2020 – 21) eto gyda thoiledau Dinas. Byddai'r cyfraniadau yn parhau angen eu talu flwyddyn ar y tro. Penderfynwyd cytuno a'r cais a pharhau a'r cynllun fel arfer, sef talu £2000 y flwyddyn.
- c) Nodwyd lythyr gan Grwp Cynefin yn hysbysebu eiddo yn dod yn wag yn Maes y Ddawns, Llangadfan.
- d) Nodwyd lythyr Cyngor Gwynedd yn hysbysu am waith ailwynebu ar Groesffordd Pont y Felin Aberangell.
- e) Nodwyd lythyr y Parc Cenedlaethol ynglyn a mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol Eryri.
- f) Nodwyd gyfarfod gan Heddlu Gogledd Cymru ac Adran Safonau Masnach yn Porthmadog ar y 15fed o Fai i godi ymwybyddiaeth am dactegau scamio. Byddai'r Clerc yn danfon yr ohebiaeth ymlaen.
- g) Nodwyd lythyr gan Jill Evans fel Cadeirydd CND Cymru ynglyn a claddu gwastraff niwcliar yng Nghymru. Dywedwyd fod y Llywodraeth yn chwilio am gymunedau fyddai yn 'gwirfodoli' i leoli gwastraff niwcliar, a bod CND Cymru yn

cadw cofnod o bob Cyngor Cymuned sy'n cytuno i wrthod claddu gwastraff niwcliar. Gwelwyd fod yn bwysig inni fynegi barn o ymwrthod a chladdu gwastraff niwcliar, a byddai'r Clerc yn danfon llythyr at Jill Evans.

- h) Cyfeiriwyd at lythyr gan Simon Roberts, Uwch Warden Ardal y De o Barc Cenedlaethol Eryri ynglyn a llwybr pren sydd wedi ei osod dros Waun Camddwr, sef ar y llwybr sy'n arwain o Blaencywarch i gopa Aran Fawddwy. Roedd y llythyr yn gofyn am gefnodaeth i adnewyddu'r llwybr, ac yn gofyn barn ar beth sydd orau rhwng dewis deunydd plastig wedi ei ail-gylchu neu ddeunydd cymysg. Penderfynwyd ein bod yn gefnogol i'r prosiect o adnewyddu y llwybr.. O ran y deunydd, nid oedd teimladau cryf ar hyn, dim ond ceisio cael deunydd fydd yn para yn hir i arbed gwaith yn y dyfodol.

6. Unrhyw Fater arall.

- a) Cyfeiriwyd at y palmant/llwybr ar ochr yr A470 oddiar yr Ysgol a oedd wedi culhau oherwydd gor-dyfiant, ac roedd angen ei glirio.
- b) Trafodwyd y gwaith fu ymlaen yn y gymuned yn ddiweddar yn casglu sbwriel ar y cyd gyda Daniel Griffith, Swyddog Prosiect Gwynedd o Cadw Cymru'n Daclus. Yn y lle cyntaf diolchwyd i'r Cyng Arfon Hughes a phawb arall fu ynglwm ac yn cefnogi y gwaith gwerthfawr yma. Roedd angen atgoffa Cyngor Gwynedd unwaith eto am yr angen i glirio sbwriel. Y tro hwn roedd yswiriant wedi ei drefnu gan Daniel Griffith, ac yna aethpwyd ymlaen i drafod yr angen i drefnu yswiriant ein hunain at unrhyw ymgyrch tebyg i'r dyfodol. Roedd angen gwneud ymchwil i hyn, sef talu drwy Cadw Cymru yn Daclus – neu byddai'r Clerc yn edrych a oedd yn bosib gwneud hyn o dan bolisi yswiriant y Cyngor Cymuned. Gwelwyd y byddai rhaid trafod hyn y tro nesaf.
- c) Cyfeiriodd y Cyng Arfon Hughes at broblem Canclwm Siapan (Japanese Knotweed) o fewn yr ardal, a dosbarthodd fap yn dangos hyn. Awgrymodd dynnu asiantaethau i mewn i ymdrin a'r broblem, a chael swyddog i wneud y gwaith. Byddai'r gost oddeutu £500 y flwyddyn i'r Cyngor Cymuned, sef 4 blynedd o chwistrellu a 2 flynedd o fonitro wedyn. Gwelwyd fod angen gwneud ymchwil i hyn, a hefyd holi Rhys Owen yn y Parc Cenedlaethol. Nodwyd hefyd fod llawer o'r broblem ar dir preifat. Gofynnwyd i'r Clerc roi hwn ar yr agenda at y cyfarfod nesaf.
- d) Adroddwyd fod arwyddion ffyrdd oddiamgylch Dinas yn fler ac yn fudr, a bod angen eu tacluso/glanhau. Roedd hyn yn bwysig er mwyn rhoi y ddelwedd orau o'r ardal.
- e) Nodwyd fod llawer o geir i'w gweld ar gomin Dolybont, a bod hyn yn destun pryder. Hefyd roedd angen rheoli tyfiant ar Dolybont. Hefyd roedd y biniau cadw baw cwn yn llawn yno, ac y dylai Cyngor Gwynedd ddod oddiamgylch i'w casglu. Roedd angen eu hatgoffa am hyn.
- f) Gofynnwyd beth oedd y diweddaraf gyda'r Ty Hers, oedd a golwg mawr arno, - ac hefyd y sefyllfa gyda Pwyllgor yr Hen Fynwent. Roedd angen trafod hyn y tro nesaf.
- g) Diolchwyd yn fawr i'r Cyng. Arfon Hughes am ei gymorth yn rhoi gwybodaeth ar wefan y Cyngor. Adroddodd y Clerc fod hyn yn un o'r materion a godwyd yn yr archwiliad diwethaf, ac y dylai y cyfan yn awr fod wedi ei gwblhau.
- h) Mynegwyd pryder am offer hen sustem deledu y Dinas, a oedd yn beryglys iawn bellach i'r cyhoedd. Roedd angen cael rhestr o'r manau lle roedd hyn yn broblem, ac angen tynnu sylw Adran Briffyrdd Cyngor Gwynedd a'r Adran sy'n delio efo Cefnffyrdd.

- i) Roedd y ffordd yn ddrwg iawn rhwng Deunant a Nantyrhenfaes yng Nghwm Cywarch, hefyd roedd twll ger Plasybont, ac erydiad ger Blaencywarch.
- j) Roedd Cyng Elwyn Jones wedi symud meinciau y Cyngor yn gynharach yn y noson, a diolchwyd yn fawr iawn iddo.
- k) Cyferiwyd at Bont Dolybont lle roedd y Cyngor Cymuned wedi rhoi arian ar ei chyfer ar y cyd gyda nifer o gyrff eraill. Awgrymwyd y dylid rhoi plac ar giat fynedfa i Dolybont (giat wedi ei gaddo gan Liz Haynes o Gyngor Gwynedd) Awgrymwyd ysgrifennu yn y lle cyntaf at Liz Haynes, gan ei bod hi wedi gweithio yn galed ar y mater yma, a chydweithio efo hi i geisio gweithredu hyn.
- l) Adroddwyd newyddion da fod cystadleuaeth Red Bull yn dychwelyd eto i ardal Dinas, ac roedd angen ystyried a fyddai posib cydweithio i wneud digwyddiad – yn y neuadd o bosib - ar y Nos Sadwrn flaenorol.

**DYDDIAD CYFARFOD NESAF; CYFARFOD BLYNYDDOL, NOS FERCHER
22ain o Fai yn Neuadd Dinas Mawddwy am 7.30 O'R GLOCH.**